OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 898

# Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 15) 2022

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2022**

**3.** Person nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol—

(a) y mae cynllun AIG yn cael ei lunio mewn perthynas ag ef;

(b) y mae cynllun AIG yn cael ei gynnal mewn perthynas ag ef;

(c) y mae cais wedi ei wneud mewn perthynas ag ef i awdurdod lleol i sicrhau asesiad o anghenion AIG o dan adran 36(1) o Ddeddf 2014 ac nad yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y cais hwnnw o dan adran 36(3);

(d) y mae awdurdod lleol wedi penderfynu, o dan adran 36 o Ddeddf 2014, beidio â sicrhau asesiad AIG mewn perthynas ag ef ac—

(i) nad yw'r cyfnod ar gyfer dilyn cyfryngu mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw o dan adran 52 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(ii) bod cyfryngu o dan adran 55 o Ddeddf 2014 yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw;

(iii) bod tystysgrif gyfryngu wedi ei dyroddi o dan adran 55(4) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ac nad yw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(iv) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(a) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni;

(v) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(a) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw a dyfarnwyd yn derfynol arni a gorchmynnwyd i'r awdurdod lleol drefnu asesiad neu ailasesiad, ac nad yw'r asesiad hwnnw neu'r ailasesiad hwnnw wedi cychwyn;

(e) y mae awdurdod lleol wedi cyflwyno hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 36(7) o Ddeddf 2014 ei fod yn ystyried sicrhau asesiad o anghenion AIG ac—

(i) nad yw'r asesiad wedi cychwyn,

(ii) bod yr asesiad yn mynd rhagddo, neu

(iii) nad oes hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan adran 36(9) o Ddeddf 2014;

(f) y mae awdurdod lleol wedi penderfynu o dan adran 36(9) o Ddeddf 2014 nad yw'n angenrheidiol gwneud darpariaeth addysgol arbennig yn unol â chynllun AIG mewn perthynas ag ef ac—

(i) nad yw'r cyfnod ar gyfer dilyn cyfryngu mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw o dan adran 52 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(ii) bod cyfryngu o dan adran 55 o Ddeddf 2014 yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw;

(iii) bod tystysgrif gyfryngu wedi ei dyroddi o dan adran 55(4) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ac nad yw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(iv) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(b) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni;

(v) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(b) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw a dyfarnwyd yn derfynol arni a gorchmynnwyd i'r awdurdod lleol—

(aa) gwneud a chynnal cynllun AIG ac nad yw'r broses o wneud y cynllun AIG wedi cychwyn, neu

(bb) ailystyried ei benderfyniad ac nad yw'r ailystyried hwnnw wedi cychwyn;

(g) y mae awdurdod lleol wedi penderfynu o dan adran 45 o Ddeddf 2014 nad yw'n angenrheidiol mwyach gynnal cynllun AIG mewn perthynas ag ef ac—

(i) nad yw'r cyfnod ar gyfer dilyn cyfryngu mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw o dan adran 52 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(ii) bod cyfryngu o dan adran 55 o Ddeddf 2014 yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw;

(iii) bod tystysgrif gyfryngu wedi ei dyroddi o dan adran 55(4) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ac nad yw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(iv) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(f) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni.